OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1085 (Cy.133)

# RHAGOFALON TÅN, CYMRU

## Rheoliadau Diogelwch Tân (Galluoedd Cyflogeion) (Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Ebrill 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *16 Ebrill 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *12 Mai 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan erthygl 24 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag erthygl 24(4) o'r Gorchymyn hwnnw mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau neu gyrff o bersonau yr oedd yn ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn briodol.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelwch Tân (Galluoedd Cyflogeion) (Cymru) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Mai 2012.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Cyflogwyr i ystyried galluoedd cyflogeion

**2.** Rhaid i bob cyflogwr, wrth roi tasgau yng ngofal cyflogeion, ystyried galluoedd y cyflogeion hynny o ran iechyd a diogelwch, i'r graddau y mae'r galluoedd hynny yn ymwneud â thân.

(**1**) O.S. 2005/1541; a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/484; y mae offerynnau diwygio eraill i'w cael, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006 (O.S. 2006/1458). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

8 Ebrill 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu bod yn rhaid i gyflogwyr ystyried galluoedd cyflogeion o ran diogelwch tân wrth roi tasgau yn eu gofal. Maent yn rhoi ar waith erthygl 6(3)(b) o Gyfarwyddeb y Cyngor 89/391/EEC ddyddiedig 12 Mehefin 1989 ar gyflwyno mesurau i annog gwelliannau i ddiogelwch ac iechyd gweithwyr yn y gwaith ac yn adlewyrchu rheoliad 13(1) o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (O.S. 1999/3242).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd hi'n angenrheidiol gwneud asesiad effaith rheoleiddiol o ran costau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.